



SYNIADAU A CHYFLEOEDD

Cymhwysedd EntreComp 1.1

Sylwi ar gyfleoedd

<p>Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Defnyddiwch eich dychymyg a'ch gallu i nodi cyfleoedd ar gyfer creu gwerth: Nodwch a manteisiwch ar gyfleoedd i greu gwerth trwy archwilio'r dirwedd gymdeithasol, ddiwylliannol ac economaidd. Nodwch anghenion a heriau y mae angen eu bodloni. Sefydlwch gysylltiadau newydd a dwyn ynghyd elfennau gwasgaredig o'r dirwedd i greu cyfleoedd i greu gwerth.</p>		
<p>Gwylwch y ffilm dwy funud!</p>	<p>Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu. https://www.youtube.com/watch?v=LctfWCH5j0w&list=PLGI5zHT2w7jAPsfSjWfatN4tlxJhvj7-&index=1</p>		
<p>Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwyr wella?</p>	<p>Sylfaen:</p>	<p>Canolradd:</p>	<p>Uwch:</p>
	<p>Gall y dysgwyr ddod o hyd i gyfleoedd i gynhyrchu gwerth ar gyfer eraill.</p>	<p>Gall y dysgwyr adnabod cyfleoedd i fynd i'r afael ag anghenion nad ydynt wedi'u diwallu.</p>	<p>Gall y dysgwyr fanteisio ar gyfleoedd a'u llunio er mwyn ymateb i heriau a chreu gwerth ar gyfer eraill.</p>
<p>Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.</p>			
<p>I ba linyddau dysgu y gellir rhannu'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gellir rhannu'r cymhwysedd sylwi ar gyfleoedd yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Nodi, creu a manteisio ar gyfleoedd ○ Canolbwyntio ar heriau ○ Datgelu anghenion ○ Dadansoddi'r cyd-destun 		
<p>Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Cerdded mewn esgidiau gwahanol – gofynnwch i'ch myfyrwyr ddewis persona – efallai unigolyn o hanes, rhywun enwog neu rywun o'r gymuned – a disgrifio diwrnod nodweddiadol ym mywyd yn unigolyn hwnnw. Pa broblemau y maent yn dod ar eu traws? Pa atebion y gall y myfyrwyr feddwl amdanynt? ○ Dyddlyfr cyfleoedd – gofynnwch i'r myfyrwyr dalu sylw, sylwi ar syniadau ar gyfer newid yn eu bywydau o ddydd i ddydd, a llenwi dyddlyfr cyfleoedd. ○ Blwch awgrymiadau – dewch â blwch awgrymiadau i'r dosbarth er mwyn i'r myfyrwyr sylwi ar gyfleoedd i wella'r gofod a'r amgylchedd yn yr ysgol. 		
<p>Am fynd yn ddyfnach?</p>	<p>Dysgwch am gynlluniau gwersi sy'n cefnogi'r broses o sylwi ar gyfleoedd yn y gyfres Barclays Life Skills https://barclayslifefskills.com/media/4044/problem-solving-lesson-plan.pdf</p>		



SYNIADAU A CHYFLEOEDD

Cymhwysedd EntreComp 1.2

Creadigrwydd

<p>Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Mae creadigrwydd yn ymwneud â datblygu syniadau creadigol a phwrpasol: er mwyn datblygu nifer o syniadau i greu gwerth, gan gynnwys gwell atebion i heriau newydd a rhai sy'n bodoli, archwiliwch ac arbrowfch gyda dulliau arloesol, ac ewch ati i gyfuno gwybodaeth ac adnoddau i gyflawni effeithiau gwerthfawr.</p>		
<p>Gwylwch y ffilm dwy funud!</p>	<p>Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu. https://www.youtube.com/watch?v=NRc9h1V4vSo&list=PLGI5zHT2w7jAPsfSjWfatN4tlxJhvb7-&index=2</p>		
<p>Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwr wella?</p>	<p>Sylfaen:</p>	<p>Canolradd:</p>	<p>Uwch:</p>
	<p>Gall y dysgwyr ddatblygu nifer o syniadau sy'n creu gwerth ar gyfer eraill.</p>	<p>Gall y dysgwyr brofi a mireinio syniadau sy'n creu gwerth ar gyfer eraill.</p>	<p>Gall y dysgwyr drawsnewid syniadau yn atebion sy'n creu gwerth ar gyfer eraill.</p>
	<p>Y cynnydd a amlygir o ran y cymhwysedd hwn: Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.</p>		
<p>I ba llinynnau dysgu y gellir rhannu'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gellir rhannu'r cymhwysedd creadigrwydd yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Bod yn chwilfrydig ac yn agored – amlygu chwilfrydedd ynghylch pethau newydd a gwahanol 2. Datblygu syniadau – meddwl am nifer o syniadau gwahanol neu newydd 3. Diffinio problemau – deall problem a meddwl am dulliau i'w datrys 4. Cynllunio gwerth – ystyried ateb neu syniad a nodi ei werthoedd gwahanol posibl i eraill 5. Bod yn arloesol – deall ystyr bod yn arloesol ac adnabod a yw atebion neu syniadau yn arloesol 		
<p>Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu â'r ymennydd: mewn grwpiau bach, mae gan bob grŵp broblem (naill ai wedi'i dewis gan y grŵp neu wedi ei rhoi i'r grŵp mewn cysylltiad â thema'r pwnc) wedi'i hysgrifennu ar frig dalen fawr o bapur. Mae'r grwpiau i gyd yn treulio tair munud yn ychwanegu cynifer o gyfleoedd ar gyfer atebion ag y gallant, yna maent yn symud i'r daflen nesaf ac yn ailadrodd hyn hyd nes y bydd pob grŵp wedi cael amser i weithio ar bob taflen. • Cyflwynwch wrthrych bob dydd, e.e. clip papur neu gwpan, a gofynnwch i'r myfyrwr feddwl am lawer o syniadau o ran (1) dibenion amgen a (2) y ffyrdd na ellir ei ddefnyddio. 		
<p>Am fynd yn ddyfnach?</p>	<p>Saith ffordd o gynnwys creadigrwydd yn eich ystafell ddosbarth https://creativeeducator.tech4learning.com/2018/articles/cultivate-creativity-in-your-classroom</p>		



SYNIADAU A CHYFLEOEDD

Cymhwysedd EntreComp 1.3

Gweledigaeth


<p>Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gweithio tuag at eich gweledigaeth ar gyfer y dyfodol: Dychmygu'r dyfodol. Datblygu gweledigaeth i drawsnewid syniadau yn weithredoedd. Delweddu senarios yn y dyfodol i helpu i lywio ymdrech a gweithredoedd.</p>		
<p>Gwylwch y ffilm dwy funud!</p>	<p>Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu. https://www.youtube.com/watch?v=-STTWzcvx4g&list=PLGI5zHT2w7jAPsfSjWfatN4tlxJhvbj7-&index=3</p>		
<p>Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwyr wella?</p>	<p>Sylfaen:</p>	<p>Canolradd:</p>	<p>Uwch:</p>
	<p>Gall y dysgwyr dychmygu dyfodol dymunol.</p>	<p>Gall y dysgwyr ddatblygu gweledigaeth ysbrydoledig sy'n ennyn diddordeb pobl eraill.</p>	<p>Gall y dysgwyr ddefnyddio eu gweledigaeth i arwain prosesau gwneud penderfyniadau strategol.</p>
	<p>Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.</p>		
<p>I ba linyddau dysgu y gellir rhannu'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gellir rhannu'r cymhwysedd gweledigaeth yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Dychmygu ○ Meddwl yn strategol ○ Arwain camau gweithredu 		
<p>Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Yr Ysgol y Byddwn yn ei Hoffi: yn 2011, gofynnodd un o bapurau newydd y Deyrnas Unedig i blant ysgol rannu eu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol y byddent yn ei hoffi – roedd y canlyniad yn disgrifio ysgol wahanol iawn! Gofynnwch i'ch disgyblion wneud yr un fath yn eich ysgol chi. Gadewch iddynt fod yn greadigol a dewis y ffordd y byddent yn dymuno mynegi eu syniadau. Gallai fod yn ganlyniad ysgrifenedig, ond hefyd ar ffurf fideo, sain, poster, bwrdd stori, drama, delwedd, ac ati. ○ Bwrdd Gweledigaeth: Gofynnwch i'ch myfyrwyr greu bwrdd gweledigaeth. Gallant greu gweledigaeth ar gyfer eu bywydau, a gall yr athro ofyn cwestiynau, er enghraifft ○ Pa fywyd yr ydych am fod wedi ei fyw yn 20, 30, 40, 50, 60, 70, 80 ... oed? (2) Pa fath o bobl yr ydych am eu cael o'ch cwmpas? (3) Beth yr ydych yn dymuno y gallech ei newid am y byd? 		
<p>Am fynd yn ddyfnach?</p>	<p>Addysgu trwy fyrddau gweledigaeth https://www.studyallknight.com/why-teachers-should-create-vision-boards-with-their-students/</p>		



SYNIADAU A CHYFLEOEDD
Cymhwysedd EntreComp 1.4

Rhoi gwerth ar syniadau

<p>Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gwneud y gorau o syniadau a chyfleoedd: Barnwch beth yw ystyr gwerth mewn termau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Cydnabyddwch y potensial sydd gan syniad ar gyfer creu gwerth, a nodwch ffyrdd addas o fanteisio i'r eithaf arno.</p>		
<p>Gwylwch y ffilm dwy funud!</p>	<p>Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu. https://www.youtube.com/watch?v=HddM4bMHSqY&list=PLGI5zHT2w7jAPsfSjWfatN4tlxJhvb7-&index=4</p>		
<p>Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwyr wella?</p>	<p>Sylfaen:</p>	<p>Canolradd:</p>	<p>Uwch:</p>
	<p>Gall y dysgwyr ddeall a gwerthfawrogi gwerth syniadau.</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn deall y gall syniadau feddu ar fathau gwahanol o werthoedd, y gallir eu defnyddio mewn ffyrdd gwahanol.</p>	<p>Gall y dysgwyr ddatblygu strategaethau i wneud y gorau o'r gwerth a gynhrychir gan syniadau.</p>
	<p>Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.</p>		
<p>I ba linyddau dysgu y gallir rhannu'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gellir rhannu'r cymhwysedd rhoi gwerth ar syniadau yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Cydnabod gwerth syniadau ○ Rhannu ac amddiffyn syniadau 		
<p>Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Nid yr un yna yn bendant: gall y broses cynhyrchu syniadau amlygu nifer o syniadau, a gall penderfynu pa un i'w ddewis fod yn her! Gofynnwch i'ch myfyrwyr drafod eu syniadau (niferus, gobeithio), a phenderfynu p'un a ddylid rhoi pob syniad ar y pentwr na neu'r pentwr efallai. ○ Sbectol lliw: gofynnwch i'r myfyrwyr wneud sbectolau o liwiau gwahanol, a dadansoddi syniadau gan ddefnyddio pob un o'r pedair lens hyn. Gadewch i'r myfyrwyr daflu syniadau yn seiliedig ar y cwestiynau canlynol (un i bob lliw) Glas: Pa ffeithiau yr ydym yn eu gwybod? Gwyrdd: Beth sy'n gadarnhaol ynghylch y syniad? Melyn: Beth sy'n negyddol? ○ Coch: Pa fath o deimlad a gawn wrth i ni wireddu'r syniad? 		
<p>Am fynd yn ddyfnach?</p>	<p>Gall rhoi gwerth ar syniadau ymwneud ag eiddo deallusol https://www.epo.org/learning-events/materials/kit.html</p>		



SYNIADAU A CHYFLEOEDD
Cymhwysedd EntreComp 1.5

Meddwl moesegol a chynaliadwy

<p>Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Asesu canlyniadau ac effaith syniadau, cyfleoedd a gweithredoedd: Aseswch ganlyniadau syniadau sy'n rhoi gwerth, ac effaith gweithredoedd entrepreneuriaidd ar y gymuned darged, ar y farchnad, ar gymdeithas ac ar yr amgylchedd. Myfyriwch ar ba mor gynaliadwy yw nodau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, yn ogystal ag ar y camau gweithredu a ddewisir. Gweithredwch mewn modd cyfrifol.</p>		
<p>Gwylwch y ffilm dwy funud!</p>	<p>Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu.</p> <p>https://www.youtube.com/watch?v=Hg_tEWqB-s&list=PLGI5zHT2w7jAPsfSjWfatN4tlxJhvj7-&index=5</p>		
<p>Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwyr wella?</p>	<p>Sylfaen:</p> <p>Gall y dysgwyr gydnabod effaith eu dewisiadau a'u hymddygiadau, a hynny yn y gymuned ac ar yr amgylchedd, fel ei gilydd.</p>	<p>Canolradd:</p> <p>Caiff y dysgwyr eu llywio gan foeseg a chynaliadwyedd pan fyddant yn gwneud penderfyniadau.</p>	<p>Uwch:</p> <p>Gall y dysgwyr weithredu er mwyn sicrhau bod eu nodau moesegol ac o ran cynaliadwyedd yn cael eu bodloni.</p>
<p>Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.</p>			
<p>I ba llinynnau dysgu y gellir rhannu'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gellir rhannu'r cymhwysedd meddwl moesegol a chynaliadwy yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Ymddwyn mewn modd moesegol ○ Meddwl yn gynaliadwy ○ Asesu'r effaith ○ Bod yn atebol 		
<p>Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Senarios dilema: gall datrys dilemas bywyd go iawn fod y ffordd wych o ymarfer y cymhwysedd hwn. Trwy ddefnyddio senarios dilema a chwestiynau a baratowyd, gofynnir i'r myfyrwyr ddadlau neu ysgrifennu eu barn. ○ Fy arfbais: archwiliwch werthoedd a delfrydau'r myfyrwyr trwy ofyn iddynt ddylunio eu tarian eu hunain, sy'n cynrychioli eu gwerthoedd, eu cyflawniadau a'u delfrydau. Gall y myfyrwyr gyflwyno eu harfbais ac egluro'r hyn y mae'r delweddau gwahanol yn ei olygu iddynt. 		
<p>Am fynd yn ddyfnach?</p>	<p>Edrychwch ar y modd y gall addysg gydweithredol fod yn ffordd wych o gyflwyno entrepreneuriaeth a moeseg i'ch gwaith addysgu https://www.coopilot-project.eu/</p>		



ENTRECOMPEDU

Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union





ADNODDAU

Cymhwysedd EntreComp 2.1

Hunanymwybyddiaeth a hunaneffeithiolrwydd

<p>Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Credu ynoch chi eich hun a pharhau i ddatblygu: Myfyriwch ar eich anghenion, eich dyheadau a'r hyn y mae arnoch ei eisiau yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Nodwch ac aseswch eich cryfderau a'ch gwendidau unigol a chryfderau a gwendidau'r grŵp. Credwch yn eich gallu i ddylanwadu ar gwrs digwyddiadau, a hynny er gwaethaf ansicrwydd, camau yn ôl a methiannau dros dro.</p>			
<p>Gwylwch y ffilm dwy funud!</p>	<p>Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu. https://www.youtube.com/watch?v=SckfciKwSwU&list=PLGI5zHT2w7jAPsfSjWfatN4tlxJhvb7-&index=6</p>			
<p>Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwyr wella?</p>	<p>Sylfaen:</p>	<p>Canolradd:</p>	<p>Uwch:</p>	
	<p>Mae'r dysgwyr yn ymddiried yn eu gallu eu hunain i gynhyrchu gwerth ar gyfer eraill.</p>	<p>Gall y dysgwyr wneud y gorau o'u cryfderau a'u gwendidau.</p>	<p>Gall y dysgwyr wneud iawn am eu gwendidau trwy gydweithio ag eraill a thrwy ddatblygu eu cryfderau ymhellach.</p>	
	<p>Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.</p>			
<p>I ba linyddau dysgu y gellir rhannu'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gellir rhannu'r cymhwysedd hunanymwybyddiaeth a hunaneffeithiolrwydd yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Dilyn eich dyheadau ○ Nodi eich cryfderau a'ch gwendidau ○ Credu yn eich gallu ○ Llunio eich dyfodol 			
<p>Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Cwis sgiliau a chryfderau: Rhowch gyfle i'ch myfyrwyr asesu eu sgiliau, nodi eu cryfderau a'u gwendidau, gosod nodau, a myfrio ar eu cynnydd, a hynny ar y cyd â chyfoedion a'r athro. Cynhaliwch gwis ar ddechrau'r flwyddyn, ac ailadroddwch y cwis yn ystod y prosiect neu ar ôl cyfnod penodol, er mwyn myfrio ar gynnydd y myfyrwyr: ○ Gwaredwch unrhyw feddyliau negyddol: Rhowch sawl slip o bapur i'r myfyrwyr. Dywedwch wrthynt am ysgrifennu datganiadau ynghylch pam y maent o'r farn na allant fod yn llwyddiannus yn eich dosbarth. Trafodwch y rhain mewn modd sensitif, yna gwnewch sioe fawr o waredu'r meddyliau negyddol hyn. Dywedwch wrth y myfyrwyr am rwygo'r papurau a'u taflu i'r bin. Yna rhowch sawl slip arall o bapur iddynt i ysgrifennu datganiadau cadarnhaol amdanynt eu hunain, ynghyd â datganiadau gweithredu. Gofynnwch iddynt gario'r datganiadau hyn o gwmpas trwy gydol y flwyddyn, a'u darllen yn ystod y flwyddyn. 			
<p>Am fynd yn ddyfnach?</p>	<p>Beth yw hunaneffeithiolrwydd? Darganfyddwch ragor yma https://www.youtube.com/watch?time_continue=24&v=xclKIPTG97k</p>			



ADNODDAU

Cymhwysedd EntreComp 2.2

Cymhelliant a dyfalbarhad

<p>Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Parhau i ganolbwyntio a pheidio â rhoi'r gorau: Byddwch yn benderfynol o drawsnewid syniadau yn weithredoedd a bodloni eich angen i gyflawni. Byddwch yn barod i fod yn amyneddgar a pharhau i roi cynnig arni er mwyn cyflawni eich nodau hirdymor unigol neu nodau hirdymor y grŵp. Byddwch yn gydnherth dan bwysau, adfyd a methiant dros dro.</p>		
<p>Gwylwch y ffilm dwy funud!</p>	<p>Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu. https://www.youtube.com/watch?v=gK3m6hmZoSM&list=PLGI5zHT2w7jAPsfjWfatN4tlxJhvbj7-&index=8</p>		
<p>Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwr wella?</p>	<p>Sylfaen:</p>	<p>Canolradd:</p>	<p>Uwch:</p>
	<p>Mae'r dysgwyr am ddilyn eu diddordeb a chreu gwerth ar gyfer eraill.</p>	<p>Mae'r dysgwyr yn fodlon gwneud ymdrech a chyfrannu adnoddau i ddilyn eu diddordeb a chreu gwerth ar gyfer eraill.</p>	<p>Gall y dysgwyr ganolbwyntio ar eu diddordeb a pharhau i greu gwerth, er gwaethaf camau yn ôl.</p>
	<p>Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.</p>		
<p>I ba llinynnau dysgu y gallir rhannu'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gellir rhannu'r cymhwysedd cymhelliant a dyfalbarhad yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Parhau'n llawn cymhelliant ○ Bod yn benderfynol ○ Canolbwyntio ar yr hyn sy'n eich cymell ○ Bod yn gydnherth ○ Peidio â rhoi'r ffidil yn y to 		
<p>Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Awr yr Athrylith (Genius Hour): prosiect dysgu seiliedig ar ymholiad lle mae'r myfyrwr yn gweithio ar brosiectau unigol sy'n canolbwyntio ar eu diddordeb. Cychwynnwyd Awr yr Athrylith gan y cwmnïau Google a 3M, ac roedd yn rhoi 20% o'u hamser i'w gweithwyr i weithio ar eu diddordeb – neu ar brosiect nad oedd yn ymwneud â'r gwaith. ○ Doethineb ffordd o feddwl: Gofynnwch i'r myfyrwr ddisgrifio, yn ysgrifenedig, amser pan fu iddynt weithio'n galed iawn. Rhwngwestiynau iddynt: Beth a barodd i chi weithio mor galed? A oeddech erioed wedi ystyried rhoi'r ffidil yn y to? Beth a barodd i chi ddal ati? Sut yr aeth pethau? Beth yr oeddech yn ei deimlo pan oedd popeth drosodd? Gadewch iddynt rannu eu myfyrodau mewn grwpiau bach. Gofynnwch iddynt ddewis sgîl y byddent yn hoffi ei ddysgu neu ei wella, a llunio cynllun saith niwrnod ar gyfer y modd o ymarfer y sgîl am awr y dydd, sydd i gynnwys syniadau ac awgrymiadau gan ffrindiau ac athrawon. Rhwng amser iddynt wneud hyn ac i gadw dyddlyfr i gofnodi sut y mae pethau'n mynd. Ymhen saith niwrnod, gadewch i'r myfyrwr rannu eu dyddlyfr a myfyrïo arno. [Datblygwyd y gweithgaredd hwn gan What Kids Can Do – www.wkcd.org]. 		
<p>Am fynd yn ddyfnach?</p>	<p>Ar eich cyfer chi, yr athro – pum ffordd o ysgogi eich myfyrwr https://teach.com/what/teachers-change-lives/motivating-students/</p>		



ENTRECOMPEDU





ADNODDAU

Cymhwysedd EntreComp 2.3

Rhoi adnoddau ar waith

<p>Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Casglu a rheoli'r adnoddau y mae arnoch eu hangen: Casglwch a rheolwch yr adnoddau perthnasol, amherthnasol a digidol y mae eu hangen i drawsnewid syniadau yn weithredoedd. Gwnewch y gorau o adnoddau prin. Casglwch a rheolwch y cymhwyseddau y mae eu hangen yn unrhyw gam, sy'n cynnwys cymhwyseddau technegol, cyfreithiol, treth a digidol (er enghraifft, trwy bartneriaethau addas, rhwydweithio, prynu i mewn a ffynonellau torfol).</p>			
<p>Gwylwch y ffilm dwy funud!</p>	<p>Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu. https://www.youtube.com/watch?v=iHa4MzggFN8&list=PLGI5zHT2w7jAPsfSjWfatN4tlxJhvbj7-&index=9</p>			
<p>Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwyr wella?</p>	<p>Sylfaen:</p>	<p>Canolradd:</p>	<p>Uwch:</p>	
	<p>Gall y dysgwyr ddod o hyd i adnoddau a'u defnyddio mewn modd cyfrifol.</p>	<p>Gall y dysgwyr gasglu a rheoli mathau gwahanol o adnoddau i greu gwerth ar gyfer eraill.</p>	<p>Gall y dysgwyr ddiffinio strategaethau i roi'r adnoddau y mae arnynt eu hangen ar waith i gynhyrchu gwerth ar gyfer eraill.</p>	
	<p>Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.</p>			
<p>I ba linyddau dysgu y gellir rhannu'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gellir rhannu'r cymhwysedd rhoi adnoddau ar waith yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> o Rheoli adnoddau o Defnyddio adnoddau mewn modd cyfrifol o Gwneud y gorau o'ch amser o Sicrhau cymorth 			
<p>Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?</p>	<p>Prosiect Tân y Ddraig: Gosodwch heriau go iawn i'r disgyblion, lle mae'n rhaid iddynt gynhyrchu atebion go iawn, ac felly gaffael gwybodaeth a sgiliau wrth ddylunio, gwneud a gwerthu cynnyrch neu wasanaeth. Dylai'r sesiynau gynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Dewis rolau swyddi, dewis yr unigolyn iawn ar gyfer y rôl iawn, a chydweithio mewn timau; 2. Dylunio, datblygu a chostio/prisio cynnyrch; 3. Cynhyrchu a diogelwch; 4. Gwerthiant a marchnata. <p>Er y gall y disgyblion gynnig gwasanaeth, mae'n rhaid i'r cynnyrch allu bod yn "real", ac yn rhywbeth y gallant ei ddarparu neu ei gynhyrchu. Mae'r prosiect yn gweithio orau pan fo i'r cynnyrch thema, er enghraifft, gwneud rhywbeth ar gyfer achlysur arbennig. Bydd ar y myfyrwyr angen sawl wythnos i gwblhau'r broses gyfan. Darllenwch ragor yma: http://www.tesguide.eu/tool-method/dragon-fire-project.htm</p>			
<p>Am fynd yn ddyfnach?</p>	<p>Adnoddau ar gyfer helpu myfyrwyr i baratoi adnoddau http://ecosystemapp.net/wp-content/uploads/2017/08/8-Mobilising-resources.pdf</p>			





ADNODDAU

Cymhwysedd EntreComp 2.4

Llythrennedd ariannol ac economaidd

Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?	Meithrin gallu ariannol ac economaidd: Amcangyfrifwch y gost o drawsnewid syniad yn weithgaredd sy'n creu gwerth. Cynlluniwch, gweithredwch a gwerthuswch benderfyniadau ariannol dros amser. Rheolwch y cyllid i sicrhau y gall eich gweithgaredd creu gwerth bara am yr hirdymor.		
Gwylwch y ffilm dwy funud!	Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu. https://www.youtube.com/watch?v=7_NydlHsmLY&list=PLG15zHT2w7jAPsfSjWfatN4tlxJhvb7-&index=10		
Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwr wella?	Sylfaen:	Canolradd:	Uwch:
	Gall y dysgwyr lunio cyllideb ar gyfer gweithgaredd syml.	Gall y dysgwyr ddod o hyd i opsiynau ariannu a rheoli cyllideb ar gyfer gweithgaredd sy'n creu gwerth.	Gall y dysgwyr lunio cynllun ar gyfer cynaliadwyedd ariannol gweithgaredd sy'n creu gwerth.
	Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.		
I ba linyddau dysgu y gellir rhannu'r cymhwysedd hwn?	Gellir rhannu'r cymhwysedd llythrennedd ariannol ac economaidd yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd: <ul style="list-style-type: none"> ○ Deall cysyniadau economaidd ac ariannol ○ Cyllidebu ○ Dod o hyd i gyllid ○ Deall trethiant 		
Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?	<ul style="list-style-type: none"> ○ Cyllideb bersonol: heriwch y myfyrwr i olrhain eu cyllid personol am fis ○ Gwneud gwahaniaeth gyda \$10: gofynnwch i'r myfyrwr greu gwerth ar gyfer eraill gan ddefnyddio cronfa gychwynnol o \$10 – gallant feddwl am unrhyw syniad cyfreithlon, o greu busnes i greu digwyddiad codi arian, neu ddefnyddio'r arian mewn ffordd arall. 		
Am fynd yn ddyfnach?	Rhagor o ffyrdd o addysgu llythrennedd ariannol ar draws yr ystod oedran https://childfinanceinternational.org/		






ADNODDAU

Cymhwysedd EntreComp 2.5

Cynnull pobl eraill

<p>Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Ysbrydoli eraill, tanio eu brwdfrydedd a sicrhau eu cefnogaeth: Ysbrydolwch ac enynnwch ddiddordeb rhanddeiliaid perthnasol. Sicrhewch y cymorth gofynnol i gyflawni deilliannau gwerthfawr. Amlygwch brosesau cyfathrebu, perswadio, negodi ac arweinyddiaeth effeithiol.</p>		
<p>Gwylwch y ffilm dwy funud!</p>	<p>Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu. https://www.youtube.com/watch?v=W1S34E-E9Xg&list=PLGI5zHT2w7jAPsfSjWfatN4tlxJhvbj7-&index=7</p>		
<p>Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwr wella?</p>	<p>Sylfaen:</p>	<p>Canolradd:</p>	<p>Uwch:</p>
	<p>Gall y dysgwyr gyfleu eu syniadau yn glir a chyda brwdfrydedd.</p>	<p>Gall y dysgwyr berswadio ac ysbrydoli eraill, a'u cynnwys mewn gweithgareddau sy'n creu gwerth.</p>	<p>Gall y dysgwyr ysbrydoli eraill, a sicrhau eu cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau sy'n creu gwerth.</p>
	<p>Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.</p>		
<p>I ba linyddau dysgu y gellir rhannu'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gellir rhannu'r cymhwysedd cynnull pobl eraill yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Ysbrydoli a chael eich ysbrydoli ○ Perswadio ○ Cyfathrebu'n effeithiol ○ Defnyddio'r cyfryngau mewn modd effeithiol 		
<p>Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?</p>	<p>Chwarae rôl: Trefnwch weithgaredd chwarae rôl lle y caiff pob unigolyn ei ddewis i chwarae un rôl: bydd un yn cyflwyno syniad; bydd un yn noddwr; bydd gweddill y grŵp yn newyddiadurwyr a fydd yn creu stori o amgylch y syniad. (www.tesguide.eu)</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Dechreuwch ar y sesiwn chwarae rôl. Rhaid i'r cyflwynydd geisio argyhoeddi'r noddwr fod y syniad hwn yn un sy'n werth buddsoddi ynddo. Mae'r newyddiadurwyr yn arsylwi ac yn cymryd nodiadau. Caniatewch ddwy funud ar gyfer y cam hwn. 2. Wedyn, efelychwch gynhadledd y wasg, lle y bydd y newyddiadurwyr yn holi'r cyflwynydd a'r noddwr. 3. Rhowch dair munud i'r newyddiadurwyr ysgrifennu drafft bras o'u herthygl. Gofynnwch i rywun ddarllen yn uchel yr hyn y mae wedi'i nodi. 4. Bydd unrhyw ddirnadaeth newydd yn helpu i ddatblygu'r syniad ymhellach ar gyfer ei gyflwyno a'i weithredu. 		
<p>Am fynd yn ddyfnach?</p>	<p>Addysgu technegau perswadio: https://www.scholastic.com/teachers/articles/teaching-content/teaching-kids-gentle-art-persuasion/</p>		



AR WAITH

Cymhwysedd EntreComp 3.1

Mynd amdani

<p>Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Mynd amdani: Cychwynnwg brosesau sy'n creu gwerth. Derbyniwch heriau. Gweithredwch a gweithiwch yn annibynnol i gyflawni nodau, cadw at fwriadau a chyflawni tasgau a gynlluniwyd.</p>		
<p>Gwylwch y ffilm dwy funud!</p>	<p>Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu. https://www.youtube.com/watch?v=RHs3BriNBAY&list=PLGI5zHT2w7jAPsfSjWfatN4tlxJhvb7-&index=11</p>		
<p>Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwr wella?</p>	<p>Sylfaen:</p>	<p>Canolradd:</p>	<p>Uwch:</p>
	<p>Mae'r dysgwyr yn fodlon rhoi cynnig ar ddatrys problemau sy'n effeithio ar eu cymunedau.</p>	<p>Gall y dysgwyr gychwyn syniadau sy'n creu gwerth.</p>	<p>Gall y dysgwyr chwilio am gyfleoedd i fynd amdani er mwyn ychwanegu neu greu gwerth.</p>
	<p>Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.</p>		
<p>I ba linyrnau dysgu y gellir rhannu'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gellir rhannu'r cymhwysedd mynd amdani yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Ysgwyddo cyfrifoldeb ○ Gweithio'n annibynnol ○ Gweithredu ○ Diffinio nodau ○ Cynllunio a threfnu ○ Llunio cynlluniau busnes cynaliadwy 		
<p>Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Ailwampio fy Nodrefn: Mae hon yn enghraifft o ysgol yn Norwy. Rhoddwyd 40 o hen gadeiriau i'r ysgol. Penderfynodd y myfyrwr, a welodd gyfle i sefydlu busnes hyfyw, eu hailgylchu mewn ffordd greadigol – eu trwsio mewn arddulliau gwahanol ac yna eu gwerthu yn y gymuned leol. ○ Dal y Disgyblion yn Gwneud yn Iawn: Rydym yn aml yn ceisio “dal” disgyblion yn gwneud rhywbeth o'i le, ond gallwn gefnogi eu menter hefyd trwy eu dal yn gwneud rhywbeth yn iawn, yn ei mentro hi, yn gwneud rhywbeth heb i neb ddweud wrthynt. Sut y gallwn wneud hyn? Yn gyntaf, trafodwch yr hyn y mae'n ei olygu i wneud y peth iawn. Gallwch lunio rhestr o'r gweithredoedd iawn a hefyd sefydlu “man agored” er mwyn i'r myfyrwr gyfrannu. 		
<p>Am fynd yn ddyfnach?</p>	<p>Deg ffordd o feithrin menter ac ymreolaeth https://www.educacionrespuntocero.com/recursos/educacion-emocional/10-iniciativas-losestudiantes-sean-mas-autonomos/42838.html</p>		



ENTRECOMPEDU

Co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union





INTO ACTION
EntreComp Competence 3.2

Planning and management

<p>Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Blaenoriaethu, trefnu a chymryd camau dilynol: Gosodwch nodau hirdymor, tymor canolig a byrdymor. Diffiniwch flaenoriaethau a chynlluniau gweithredu. Addaswch i newidiadau annisgwyl.</p>			
<p>Gwylwch y ffilm dwy funud!</p>	<p>Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu. https://www.youtube.com/watch?v=R9YJPPp4uTU&list=PLGI5zHT2w7jAPsfSjWfatN4tlxJhvb7-&index=12</p>			
<p>Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwyr wella?</p>	<p>Sylfaen:</p>	<p>Canolradd:</p>	<p>Uwch:</p>	
	<p>Gall y dysgwyr ddiffinio'r nodau ar gyfer gweithgaredd syml i greu gwerth.</p>	<p>Gall y dysgwyr lunio cynllun gweithredu sy'n nodi'r blaenoriaethau a'r cerrig milltir ar gyfer cyflawni eu nodau.</p>	<p>Gall y dysgwyr fireinio blaenoriaethau a chynlluniau i addasu i amgylchiadau newidiol.</p>	
	<p>Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.</p>			
<p>I ba linyddau dysgu y gallir rhannu'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gellir rhannu'r cymhwysedd cynllunio a rheoli yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Diffinio nodau ○ Cynllunio a threfnu ○ Llundio cynlluniau busnes cynaliadwy ○ Diffinio blaenoriaethau ○ Monitro eich cynnydd ○ Bod yn hyblyg ac addasu i newidiadau 			
<p>Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Heriau YouthStart: cymerwch ran mewn prosiectau sy'n seiliedig ar heriau trwy edrych ar adnoddau cwricwlwm y prosiect YouthStart http://www.youthstart.eu/ ○ Sut i gynllunio prosiect neu ddiwyddiad? Y ffordd symlaf yw trwy ddefnyddio Post-its. Rhannwch y disgyblion yn grwpiau a rhowch Post-its iddynt. Gofynnwch iddynt ysgrifennu'r holl weithgareddau sy'n angenrheidiol, yn eu barn nhw, i gyflawni'r prosiect. Dylent ysgrifennu un gweithgaredd ar bob Post-it. Rhowch amser iddynt gyflwyno. 			



ENTRECOMPEU

Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union





AR WAITH

Cymhwysedd EntreComp 3.3

Ymdopi ag ansicrwydd, amwysedd a risg

<p>Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gwneud penderfyniadau er mwyn delio ag ansicrwydd, amwysedd a risg: Gwnewch benderfyniadau pan fo canlyniad y penderfyniad hwnnw yn ansicr, pan fo'r wybodaeth sydd ar gael yn rhannol neu'n amwys, neu pan fo yna risg o ganlyniadau anfwriadol. Yn rhan o'r broses o greu gwerth, dylech gynnwys ffyrdd strwythuredig o brofi syniadau a phrototeipiau o'r camau cynnar, a hynny er mwyn lleihau'r risg o fethu. Deliwch â sefyllfaoedd sy'n symud yn gyflym mewn modd prydlon a hyblyg.</p>		
<p>Gwylwch y ffilm dwy funud!</p>	<p>Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu. https://www.youtube.com/watch?v=JHMMwMC42M8&list=PLGI5zHT2w7jAPsfSjWfatN4tlxJhvb7-&index=15</p>		
<p>Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwyr wella?</p>	<p>Sylfaen:</p>	<p>Canolradd:</p>	<p>Uwch:</p>
	<p>Nid oes ar y dysgwyr ofn gwneud camgymeriadau wrth roi cynnig ar bethau newydd.</p>	<p>Gall y dysgwyr werthuso buddion a risgiau opsiynau amgen, a gwneud dewisiadau sy'n adlewyrchu eu dewisiadau.</p>	<p>Gall y dysgwyr bwysu a mesur y risgiau, a gwneud penderfyniadau er gwaethaf ansicrwydd ac amwysedd.</p>
	<p>Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.</p>		
<p>I ba linyddau dysgu y gallir rhannu'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gellir rhannu'r cymhwysedd ymdopi ag ansicrwydd, amwysedd a risg yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Ymdopi ag ansicrwydd, amwysedd a risg ○ Cyfrifo'r risg ○ Rheoli risg 		
<p>Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Cymer Risg: Mae'r gêm Cymer Risg yn weithgaredd hwyliog i'w gynnal gyda'ch myfyrwyr a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Gallwch ddod o hyd i'r sleidiau sy'n berthnasol i'r gweithgaredd hwn yn https://fr.slideshare.net/pthuyduong/managing-risk-in-the-school ○ Wythnos Methiant: Gweithredwch "Wythnos Methiant" yn eich ysgol neu ystafell ddosbarth i annog y disgyblion i gymryd risg. Gall athrawon a myfyrwyr groesawu methiant a dysgu ohono! http://blog.gdst.net/post/17155939514/when-failure-is-an-option 		
<p>Am fynd yn ddyfnach?</p>	<p>Y modd y mae Microsoft yn ystyried ymdopi ag amwysedd https://www.microsoft.com/en-us/education/training-and-events/education-competencies/dealing_with_ambiguity.aspx</p>		



AR WAITH

Cymhwysedd EntreComp 3.4

Gweithio gydag eraill

<p>Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Ffurio tîm, cydweithio, a rhwydweithio: Gweithiwch gyda'ch gilydd a chydweithredwch ag eraill er mwyn datblygu syniadau a'u trawsnewid yn weithredoedd. Rhwydweithiwch. Datrysych wrthdaro ac wynebwich gystadleuaeth mewn ffordd gadarnhaol pan fo angen.</p>		
<p>Gwylwch y ffilm dwy funud!</p>	<p>Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu. https://www.youtube.com/watch?v=ODA_rlq9GWY&list=PLGI5zHT2w7jAPsfSjWfatN4tlxJhvb7-&index=13</p>		
<p>Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwyr wella?</p>	<p>Sylfaen:</p>	<p>Canolradd:</p>	<p>Uwch:</p>
	<p>Gall y dysgwyr weithio mewn tîm i greu gwerth.</p>	<p>Gall y dysgwyr gydweithio ag amrywiaeth eang o unigolion a grwpiau i greu gwerth.</p>	<p>Gall y dysgwyr ffurfio tîm a rhwydweithiau yn seiliedig ar anghenion eu gweithgaredd sy'n creu gwerth.</p>
	<p>Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.</p>		
<p>I ba linyddau dysgu y gellir rhannu'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gellir rhannu'r cymhwysedd gweithio gydag eraill yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Derbyn amrywiaeth ○ Datblygu deallusrwydd emosiynol ○ Gwrando'n astud ○ Ffurio tîm ○ Cydweithio ○ Ehangu eich rhwydwaith 		
<p>Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?</p>	<p>Wrth weithio mewn timau ar weithgareddau cydweithredol, dylai'r myfyrwyr gefnogi'r naill a'r llall i ddysgu. Dylai fod gan bob myfyrwr gyfrifoldeb unigol yn ôl ei rôl yn y tîm, i alluogi rhyngweithio ymhlith y tîm, yn ogystal ag ymdeimlad o fod yn gyfrifol am ganlyniadau'r tîm. Dylai'r myfyrwyr gael eu grwpio yn seiliedig ar yr hyn y mae pob un yn teimlo y mae'n gallu ei gyfrannu. Sut y mae mynd ati? Gofynnwch i'r myfyrwyr greu eu Cardiau Proffil. Mae'r myfyrwyr yn eu gwerthuso eu hunain yn ôl eu cryfderau, eu sgiliau, a'u gwendidau er mwyn helpu'r myfyrwyr a/neu'r athrawon i ffurfio timau. Gallwch gael ysbrydoliaeth yn http://www.blog.timesunion.com/careers/the-10-mostimportant-personality-traits-for-career-success/633/</p>		
<p>Am fynd yn ddyfnach?</p>	<p>Gall dysgu cydweithredol fod yn ffordd wych o alluogi'r myfyrwyr i weithio mewn modd cynhyrchiol gydag eraill https://wabisabilearning.com/blogs/future-fluencies/how-collaborative-learning-activities-build-more-powerful-student-brains?_pos=2&_sid=c235ef0fc&_ss=r</p>		



ENTRECOMPEDU

Co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union





AR WAITH

Cymhwysedd EntreComp 3.5

Dysgu trwy brofiad

<p>Sut y gallwch ddisgrifio'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Dysgu trwy wneud: Defnyddiwch unrhyw fenter i greu gwerth fel cyfle i ddysgu. Dysgwch gydag eraill, gan gynnwys cyfoedion a mentoriaid. Myfyriwch a dysgwch trwy lwyddiant a methiant (o'ch rhan chi ac o ran eraill).</p>			
<p>Gwylwch y ffilm dwy funud!</p>	<p>Mae'r fideo hwn yn egluro'r cymhwysedd hwn yn rhan o'r cymhwysedd allweddol ar gyfer entrepreneuriaeth, ac yn rhannu syniadau am y modd i'w ddatblygu. https://www.youtube.com/watch?v=Q0uGwvBVCus&list=PLGI5zHT2w7jAPsSjWfatN4tlxJhvb7-&index=14</p>			
<p>Sut beth yw cynnydd ar gyfer y cymhwysedd hwn wrth i'r myfyrwyr wella?</p>	<p>Sylfaen:</p>	<p>Canolradd:</p>	<p>Uwch:</p>	
	<p>Gall y dysgwyr nodi'r hyn y maent wedi'i ddysgu trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n creu gwerth.</p>	<p>Gall y dysgwyr farnu a myfyrwyr ar eu cyflawniadau a'u methiannau, a dysgu ohonynt.</p>	<p>Gall y dysgwyr wella eu galluoedd i greu gwerth trwy adeiladu ar eu profiadau a'u rhyngweithiadau blaenorol ag eraill.</p>	
	<p>Mae'r dysgwyr yn raddol yn lleihau'r cymorth y mae arnynt ei angen gan eraill, yn cynyddu gwaith annibynnol ac yn cynyddu cymhlethdod eu gwaith.</p>			
<p>I ba llinynnau dysgu y gellir rhannu'r cymhwysedd hwn?</p>	<p>Gellir rhannu'r cymhwysedd dysgu trwy brofiad yn llinynnau dysgu gwahanol – gellir mapio'r rhain i'r cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu agweddau gwahanol ar y cymhwysedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Myfyrwyr ○ Dysgu i ddysgu ○ Dysgu trwy brofiad 			
<p>Sut y gallaf ddatblygu hyn yn fy ngwaith addysgu?</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Cylch Myfyriol Gibbs: defnyddiwch yr offeryn hwn gyda'ch myfyrwyr i'w helpu i fyfyrwyr https://www.bhconsulting.es/blog/ciclo-reflexivo-gibbs/ ○ Diwrnod i Ffwrdd o'r Amserlen: Mae ysgolion yn defnyddio 'Diwrnodau i Ffwrdd o'r Amserlen', i gyfnewid gwersi yn yr ystafell ddosbarth am weithgareddau neu brosiectau i gysylltu ysgolion â'r byd go iawn, a galluogi'r myfyrwyr i gryfhau eu gallu i gymhwyso sgiliau mewn modd ymarferol. Mae nifer o ysgolion yn defnyddio'r model hwn i roi cyfle i'r myfyrwyr feithrin sgiliau cymdeithasol ac emosïynol sy'n hanfodol ar gyfer llwyddo. Gellir cynnal Diwrnodau i Ffwrdd o'r Amserlen mewn ffyrdd gwahanol. Mae rhai ysgolion yn gwahodd arbenigwyr i gyflwyno gweithdai, tra bo eraill yn canolbwyntio ar deithiau allan o'r ysgol. Mae hefyd yn bosibl defnyddio teithiau maes rhithwir neu gynnal fideogynhadledd ar-lein gydag arbenigwyr, cwmnïau, sefydliadau neu gyfoedion o wledydd eraill. Gallwch drefnu diwrnodau prosiect, lle rydych yn cymysgu disgyblion o ystafelloedd dosbarth gwahanol i gydweithio ar bwnc sydd o ddiddordeb iddynt. Y peth pwysicaf yw sicrhau bod y dysgu yn fwy perthnasol ar gyfer y myfyrwyr. 			
<p>Am fynd yn ddyfnach?</p>	<p>Deg ffordd o annog proses fyfyrwyr https://whatedsaid.wordpress.com/2011/06/11/10-ways-to-encourage-student-reflection-2/</p>			



ENTRECOMPEDU

Co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union



EntreCompEdu is co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union. The European Commission support for the production of this publication does not constitute an endorsement of the contents which reflects the views only of the authors, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union